# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 15 Tachwedd 2022 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 16 Tachwedd 2022 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 23 Tachwedd 2022 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Arweinydd y Cyngor

---

**PWNC – Derbyn cynnig ariannol gan yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear i gefnogi gwaith y Cyngor i ddatblygu'r economi lleol.**

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyn cynnig Ariannol o £464,277 gan yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Nia Swann Bowden, Rheolwr Cynllun Swyddi Gwerth Uchel |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 15 Tachwedd 2022 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc : Derbyn cynnig ariannol gan yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear i gefnogi gwaith y Cyngor i ddatblygu'r economi lleol**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad : Derbyn cynnig Ariannol o £464,277 gan yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear**

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad : Dymunir penderfyniad gan yr Aelod Cabinet i dderbyn cynnig Ariannol yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear**

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear (ADN) yw'r asiantaeth Llywodraeth y DU sydd â'r cyfrifoldeb dros adfer 17 o safleoedd niwclear y DU, yn cynnwys Safle Trawsfynydd. Fel rhan o'i cyfrifoldebau trwy'r Deddf Ynni 2004, rhaid sicrhau bod gweithgareddau dadgomisiynu o fudd i gymunedau, ac yn cefnogi defnydd amgen buddiol o'r safle i'r dyfodol.

Mae Gogledd Cymru wedi'i adnabod fel ardal blaenoriaeth gan yr ADN, gan fod yr ardaloedd o gwmpas Trawsfynydd a Wylfa wedi'u profi i fod yn penodol dibynnol, yn economaidd, ar y ddau safle.

Oherwydd hyn, mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu perthynas agos gyda'r ADN, ac wedi manteisio o sawl fuddsoddiad trwy'i gronfa cymdeithasol-economaidd dros

y degawd diwethaf, er mwyn ymgymryd a nifer o weithgareddau datblygu'r economi sy'n ymwneud a'r safle ei hun, ardal Meirionnydd, a Gwynedd gyfan.

Daeth y rhaglen diwethaf o weithgareddau i ben yn 2019, ac yn y cyfnod dilynol ysgrifennodd swyddogion yr Adran Economi a Chymuned rhaglen newydd fel sail am gais newydd am nawdd. Mae'r rhaglen newydd wedi'i ysgrifennu mewn ymateb i argyfwng economaidd pandemig Covid-19, a heriau ychwanegol i fusnesau, yn cynnwys costau cynyddol nwyddau a thanwydd a sgil-effeithiau Brexit.

Mae'r rhaglen yn cyfarch a 3 phrif elfen:

Cefnogi Busnesau Bach a Chanolig i Oroesi, yn cynnwys

- Cynllun mentora, a hyfforddi i fusnesau sydd wedi profi anhawsterau sylweddol parhaus oherwydd y pandemig
- Cefnogaeth i glystyrau busnes

Cefnogi busnesau a thrigolion i fanteisio ar fuddsoddiad mwy, yn cynnwys

- Cefnogaeth i ymdrechion Cwmni Egino i ddatblygu Safle Trawsfynydd
- Cefnogaeth i ddatblygiad Canolfan Awyrofod Eryri
- Gweithio gyda'r sector addysg i adnabod a hyrwyddo cyfleoedd swyddi gall ddod o gyfleoedd economaidd lleol

Cefnogi pobl i gyflawni eu potensial, yn cynnwys

- Cyflogi mentor Tlodi mewn Gwaith arbenigol i ychwanegu at ddarpariaeth cynllun Cymunedau i Waith.

Cyfanswm cost y gweithgareddau uchod ydi £464,277, i'w gyfrannu gan yr ADN. Y bwriad yw ddefnyddio nifer o weithgareddau Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd I ychwanegu at y gweithgaredd yma, ac i ddarparu lefel arian cyfatebol o 60%, gyda gwerth o £696,415

| | |
|---|---|
| Swydd Rheolwr Cynllun Swyddi Gwerth Uchel | £180,763 |
| Swydd Swyddog Ymgysylltu Busnesau | £120,982 |
| Gweithgareddau cefnogi busnes i'w gadarnhau, wedi'u hariannu o incwm yr uned o weinyddu cronfeydd Covid. | £394,670 |
| | £696,415 |

Cyfanswm cost y cynllun, o Hydref 2022 i Medi 2025, felly, yw £1,160,692.

Mae'r ADN bellach wedi cymeradwyo'r cais, ac rydym yn gofyn, felly, am ganiatâd i dderbyn eu cynnig.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Swyddog Cyllid

“Gallaf gadarnhau cywirdeb yr wybodaeth ariannol sydd wedi ei gynnwys uchod.”

Swyddog Monitro

“Dim sylwadau I’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.”

Aelod/au Lleol -